Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru

2021

llyw.cymru

Dyma chweched datganiad polisi tâl blynyddol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn yn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ynghylch taliadau, yn arbennig taliadau i uwch-reolwyr. Mae'n cydategu gwybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, y gallwch ei gweld drwy'r ddolen isod. Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani cysylltwch â **customerhelp@llyw.cymru**

ISBN digidol 978-1-80195-949-0 © Hawlfraint y Goron 2021 WG43488




**Shan Morgan AS**

Ysgrifennydd Parhaol

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd system dâl sy'n gyfartal i bawb, yn briodol, yn dryloyw, yn darparu gwerth am arian ac yn gwobrwyo staff yn deg am eu gwaith. Yn ogystal â chyflog, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig amrywiaeth eang o fuddiannau ariannol ac anariannol yn y gweithle. Ymysg y buddiannau hyn mae aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, trefniadau sy'n galluogi staff i gael cyflog yn gynnar neu aberthu cyflog, cyfleoedd dysgu a datblygu eithriadol a chynlluniau llesiant gweithwyr, ynghyd ag amgylchedd gwaith modern a hyblyg.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut rydym yn edrych ar gyflog a'r berthynas rhwng cyflogau gweithwyr a chydnabyddiaeth ariannol i uwch-reolwyr. Paratowyd y datganiad hwn yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Tâl Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/tryloywder-t%C3%A2l-uwch-reolwyr-yn-y-sector-cyhoeddus-datganoledig-yng-nghymru.pdf a chanllawiau a chyhoeddwyd yn ddiweddarach gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/tryloywder-o-ran-cyflogau-uwch-swyddogion-yn-y-sector-cyhoeddus-datganoledig.pdf



# Cynnwys

3 Egwyddorion
3 Fframwaith Deddfwriaethol
3 Penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian
4 Trefniadau Cyflog
4 Taliadau a Lwfansau Ychwanegol
5 Cyflog Uwch-reolwyr
5 Rôl yr Ysgrifennydd Parhaol
5 Cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol
5 Staff ar lefelau uwch
6 Rheoli talent
6 Cyflog ar sail perfformiad
7 Cyflog cyfartal ac adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
7 Cymorth i staff ar gyflogau is
8 Y pwyntiau cyflog uchaf ac isaf
8 Polisi ymadael
8 Swyddi oddi ar y gyflogres
8 Atodiadau

# Egwyddorion

## Egwyddorion Tâl

- Bydd y system dâl yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr.
- Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau cyflog cyfartal i weithwyr a bydd camau'n cael eu cymryd i ymdrin â bylchau cyflog rhwng y rhywiau.
- Bydd trefniadau tâl yn agored, yn dryloyw ac yn syml. Ceir gwared ag unrhyw gymhlethdod diangen.
- Bydd datblygiad cyflog syml gyda graddfeydd cyflog cynyddrannol yn galluogi gweithwyr i gyrraedd cyfradd gyflog eu rôl yn gyflym.

Bydd y Cyflog Byw gwirioneddol (fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw) yn sail i gyfraddau cyflog a byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

# Fframwaith Deddfwriaethol

Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i benodi staff o dan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol wrth bennu cyflog a chydnabyddiaeth ariannol ei staff. Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol gyfrifoldebau dirprwyedig oddi wrth y Prif Weinidog o dan Ddeddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992 ar gyfer swyddogaethau personél, gan gynnwys materion cyflogaeth.

# Penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am argymell trefniadau cyflog priodol ar gyfer staff dirprwyedig i'r Gweinidogion. Y staff dirprwyedig yw gweithwyr ar raddau Cymorth Tîm, Swyddog Gweithredol, Swyddog Gweithredol Uwch, Uwch-swyddog Gweithredol, Gradd 7 a Gradd 6. Yn sylfaen i'r trefniadau hyn, mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn gyfrifol am sicrhau bod Undebau Llafur yn chwarae rhan lawn i negodi cyflogau, mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol, a thrwy Gytundeb Bargeinio ar y Cyd.

Ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r gweithwyr cyflogedig, Llywodraeth Cymru sy'n pennu telerau ac amodau eu gwasanaeth, gan gynnwys eu cyflog. Er hynny, yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 (TUPE), efallai fod rhai aelodau staff o sefydliadau sydd wedi uno â'r Llywodraeth wedi dewis cadw telerau ac amodau gwasanaeth eu cyn-gyflogwyr. Nid yw trefniadau o'r fath yn dod o dan drefniadau bargeinio ar y cyd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n falch iawn o'r trefniadau cadarn i weithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, ac yn gweithio'n agos gyda nhw ar faterion yn ymwneud â chyflog. Mae'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a thrafod cyflog wedi'u hamlinellu mewn Cytundeb Bargeinio ar y Cyd.

Fel rheol bydd dyfarniadau cyflog i staff dirprwyedig yn cael eu trafod yn flynyddol, ond gellir cytuno ar drefniadau eraill, er enghraifft pan fo cytundebau presennol yn cwmpasu cyfnod estynedig.

# Trefniadau Cyflog

Gellir gweld bandiau cyflog Llywodraeth Cymru yn Atodiad 1. Bydd penodiadau newydd fel rheol yn cael eu recriwtio ar isafbwynt y band cyflog perthnasol. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft lle bo tystiolaeth gref yn y farchnad, gall gweithiwr newydd gael ei benodi ar gyfradd uwch o fewn y raddfa. Yna mae'r cyflogau'n codi fesul cam bob blwyddyn nes cyrraedd yr uchafswm (fel rheol o fewn 2-3 blynedd). Os yw unigolyn yn tangyflawni yn ôl ei asesiad, nid yw'n gymwys i gael codiad cyflog cynyddrannol. Wrth gael dyrchafiad, y cyflog cychwynnol fydd isafbwynt y band cyflog ar gyfer y raddfa newydd. Gellir gweld sawl aelod o staff sydd ar bob gradd yn Atodiad 2.

Gellir gweld ystod cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil (a bennir gan Lywodraeth y DU) yn Atodiad 1.

# Taliadau a Lwfansau Ychwanegol

Gan ddibynnu ar anghenion busnes, mae'n bosibl y bydd gweithwyr yn gymwys i gael y taliadau ychwanegol canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau – lwfans dyletswyddau dros dro, lwfansau proffesiynol, a chostau teithio a chynhaliaeth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflogi nifer fach o staff yn Llundain sy'n derbyn lwfans i adlewyrchu cost ychwanegol byw a gweithio yn Llundain.

# Cyflog Uwch-reolwyr

## Rôl yr Ysgrifennydd Parhaol

Dechreuodd y Fonesig Shan Morgan DCMG yn ei swydd fel Ysgrifennydd Parhaol ym mis Chwefror 2017. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb o £25.7bn ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Mae'n cyflogi oddeutu 5,421 (cyfwerth ag amser llawn) o staff.

Penodir yr Ysgrifennydd Parhaol ar sail teilyngdod, yn dilyn hysbyseb gyhoeddus am y swydd. Gwneir y penodiad gan banel sydd fel arfer yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth Sifil, un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil a pherson annibynnol o'r tu allan i Wasanaeth Sifil. Wedi i'r penodiad gael ei wneud, oddi wrth Brif Weinidog Cymru yn unig y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn derbyn cyfarwyddyd, blaenoriaethau personol a blaenoriaethau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

## Cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol

Dim ond Swyddfa'r Cabinet all benderfynu ar gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol a'i newid. Ar hyn o bryd mae cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol rhwng £135,000 a 140,000. Mae hyn wedi gostwng ers 2018 ac yn adlewyrchu'r ffaith nad yw buddion pensiwn yn cael eu cronni erbyn hyn yng nghynllun pensiwn y gwasanaeth sifil[1].

Cyhoeddir manylion cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth blynyddol. Mae'n rhan o gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ac mae modd ei weld yma: llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru

# Staff ar lefelau uwch

Daw swyddogaethau uwch-reolwyr o dan yr Uwch Wasanaeth Sifil ar lefelau Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol. Nid yw cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil wedi'i ddirprwyo, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n dyfarnu cyflog iddynt yn unol â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU, yn dilyn argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Corff yma www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries

1 Dewisodd Shan Morgan fanteisio ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil bu gostyngiad yn ei chyflog o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Pwyllgor Cyflogau Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am argymell penderfyniadau ynghylch cyflog a rheoli perfformiad, potensial a thalent yr uwch-swyddogion.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei drin mewn ffordd deg a phriodol, ac yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae gan y Pwyllgor rywfaint o hyblygrwydd i weithredu o fewn y canllawiau a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet, er enghraifft, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw daliadau sy'n amrywio yn ôl perfformiad (neu fonws) i weithwyr yr Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ers 2013. Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Ceir copi o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau ar gyfer 2020-21 yn Atodiad 8. Mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor, ei gylch gorchwyl a'i aelodau.

Mae adroddiad datgelu ar gyfer staff sy'n ennill dros £100,000 wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys staff sy'n gweithio ar lefelau uwch yn y sefydliad. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio'r Bwrdd, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Ei ddiben yw cynghori'r Ysgrifennydd Parhaol ar benderfyniadau strategol allweddol ynghylch datblygiad y sefydliad i gefnogi'r Cabinet a chyflawni amcanion y Gweinidogion. Ceir rhagor o wybodaeth am gylch gorchwyl y Pwyllgor yma llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cylch-gorchwyl-bwrdd-01-2020.pdf

Ceir manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd yn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth sy'n rhan o gyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru

# Rheoli talent

Mae dull Llywodraeth Cymru o reoli talent yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle cyfartal i bawb arddangos eu potensial a'u cynnydd, a bod modd adnabod unigolion â photensial uchel a'u rheoli a'u datblygu mewn ffordd wahanol er mwyn eu gosod mewn swyddogaethau sy'n eu herio a'u hymestyn. O ganlyniad bydd staff talentog yn cael eu gosod yn y swyddi cywir gan sicrhau perfformiad cyson, cynaliadwy ar lefel uchel.

Mae nifer o gynlluniau datblygu talent hefyd ar gael i staff Llywodraeth Cymru ar bob lefel, gan gynnwys cymryd rhan mewn nifer o gyfleoedd ar draws y Gwasanaeth Sifil, fel y Llwybr Carlam; Cynllun Arweinwyr y Dyfodol; a'r Cynllun Uwch-arweinwyr. Mae amrywiaeth o gynlluniau datblygu mewnol ar gael hefyd i ategu amcan y sefydliad i fod yn batrwm o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

# Cyflog ar sail perfformiad

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflog seiliedig ar berfformiad i'w staff dirprwyedig.

Ar gyfer staff sy'n gweithio ar y lefelau uwch, mae rhywfaint o hyblygrwydd gan Bwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil i gynnig taliadau sy'n amrywio yn ôl perfformiad (neu fonws) i weithwyr yr Uwch Wasanaeth Sifil. Er hynny, nid yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw daliad o'r fath ers 2013.

# Cyflog cyfartal ac adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal archwiliadau cyflog cyfartal yn rheolaidd i amlygu unrhyw berygl i gyflog cyfartal o fewn y system gyflogau. Mae ein blwch cyflog rhwng y rhywiau hefyd yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwr, sy'n paratoi ysod o wybodaeth am ryw staff Llywodraeth Cymru gan radd, professiwn, contract a phatrwm gwaith. Mae dogfen 2019-2020 i'w gweld yma gov.wales/sites/default/files/publications/2021-04/welsh-government-employer-equality-report-2019-2020-.pdf. Ar sail data a gyhoeddwyd yn flaenorol, roedd y bwlch cyflog rhwng y roedd y blwch rhwng y rhywiau yn 7.37%, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021, wedi cynyddu 5.53% ers 31 Mawrth 2020.

Mae'r cynnydd yn ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau eleni yn siom. Er bod y sefydliad yn cyflogi mwy o fenywod nag o ddynion yn gyffredinol, nid ydynt wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws y graddau. Menywod yw'r rhan fwyaf o'r staff ar raddau is. Ychwanegwyd at hyn yn 2020-21 oherwydd bod nifer mawr o fenywod wedi ymuno â'r sefydliad ar lefel Prentis a Chymorth Tîm. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gallu lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy dargedu dyfarniadau cyflog at ein staff ar gyflogau is. Y dyfarniad cyflog yn 2020-21 oedd 2.5% ar bob pwynt cyflog ar bob gradd, felly ni wnaeth leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy gefnogi menywod ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, a byddwn yn pharhau i ymdrechu i gael Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gytbwys o ran y rhywiau.

# Cymorth i staff ar gyflogau is

Un o brif egwyddorion Llywodraeth Cymru yw canolbwyntio ar roi sylw i gyflogau isel a chefnogi'r Cyflog Byw.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw achredediq ac mae'r holl staff sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol (gan gynnwys prentisiaid) yn derbyn y Cyflog Byw yn unol â diffiniad y Sefydliad Cyflog Byw.

Cymerir camau bob blwyddyn i sicrhau bod cyflogau'n parhau i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i gyfraddau sy'n cael eu diffinio gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Mae ein trefniadau Cyflog Byw yn mynd ymhellach na'r staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym. Ym mhob proses caffael newydd ystyrir y cyfle i'n contractwyr talu Cyflog Byw i staff.

# Y pwyntiau cyflog uchaf ac isaf

Y cyflog isaf o fewn Llywodraeth Cymru yw'r gyfradd gychwynnol o fewn ystod cyflog Cymorth Tîm. Yr aelod staff sy'n cael y cyflog uchaf ar hyn o bryd yw swyddog ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Felly, mae'r cymariaethau cyflog (yn Atodiad 3) yn ymwneud â chyflogau'r Ysgrifennydd Parhaol, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol a chyflogau staff dirprwyedig.

# Polisi ymadael

Er mwyn helpu i ddatblygu'r sefydliad mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd yn cynnig diswyddiadau gwirfoddol. O dan amgylchiadau o'r fath bydd gweithwyr yn cael cynnig iawndal o fewn fframwaith a osodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl ddiswyddiadau yn cael eu hategu gan achos busnes sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

# Swyddi oddi ar y gyflogres

Ceir manylion trefniadau Llywodraeth Cymru oddi ar y gyflogres yn Atodiadau 5 a 6.

# Atodiadau

Ategir y datganiad hwn gan yr atodiadau canlynol (gwybodaeth fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021):

- Atodiad 1 – Bandiau cyflog Llywodraeth Cymru (Staff Dirprwyedig a'r Uwch Wasanaeth Sifil).
- Atodiad 2 – Manylion y graddau staffio.
- Atodiad 3 – Cymharu cyflogau o fewn Llywodraeth Cymru.
- Atodiad 4 – Adroddiad cyflogau uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Atodiad 5 – Swyddi oddi ar y gyflogres sy'n para yn fwy na chwe mis.
- Atodiad 6 – Swyddi oddi ar y gyflogres ar gyfer uwch-swyddogion/aelodau o'r Bwrdd â chyfrifoldeb ariannol.
- Atodiad 7 – Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Taliadau Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru 2019-20.

# Atodiad 1

## Bandiau Cyflog Llywodraeth Cymru (Staff Dirprwyedig a'r Uwch Wasanaeth Sifil) – 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

| Bandiau Cyflog – yr Uwch Wasanaeth Sifil[2] | Pwynt Cyflog | Cyflog |
|---|---|---|
| Ysgrifennydd Parhaol (Haen 1, 2 a 3) | Uchafswm<br>Isafswm | £200,000<br>£142,000 |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol (Band Cyflog 3 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £208,100<br>£120,000 |
| Cyfarwyddwr (Band Cyflog 2 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £162,500<br>£93,000 |
| Dirprwy Gyfarwyddwr (Band Cyflog 1 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £117,800<br>£71,000 |
| **Bandiau Cyflog – Staff Dirprwyedig** | **Pwynt Cyflog** | **Cyflog** |
| Gradd 6 | 4<br>3<br>2<br>1 | £74,730<br>£69,690<br>£66,240<br>£63,880 |
| Gradd 7 | 4<br>3<br>2<br>1 | £60,830<br>£56,620<br>£53,740<br>£50,870 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 4<br>3<br>2<br>1 | £47,000<br>£43,760<br>£41,560<br>£39,310 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 4<br>3<br>2<br>1 | £37,410<br>£34,490<br>£32,540<br>£30,600 |
| Swyddog Gweithredol | 3<br>2<br>1 | £28,850<br>£26,290<br>£25,030 |
| Cymorth Tîm | 3<br>2<br>1 | £23,830<br>£22,160<br>£20,500 |

2 Mae bandiau cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil yn cael eu pennu gan Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth y DU.

# Atodiad 2

## Manylion y graddau staffio – 31 Mawrth 2021

| Bandiau Cyflog | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|
| Yr Uwch Wasanaeth Sifil | 166.0 |
| Gradd 6 | 228.8 |
| Gradd 7 | 890.3 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 1,184.6 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 1,369.8 |
| Swyddog Gweithredol | 930.6 |
| Cymorth Tîm | 673.3 |
| Arall | 32.5 |

# Atodiad 3

## Cymharu Cyflogau o fewn Llywodraeth Cymru – fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2021

Y cyflog isaf o fewn Llywodraeth Cymru yw'r gyfradd gychwynnol o fewn ystod cyflog Cymorth Tîm. Yr aelod staff sy'n cael y cyflog uchaf ar hyn o bryd yw swyddog ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Felly ceir cymariaethau cyflog yn ymwneud â'r Cyfarwyddwyr sy'n cael ei dalu fwyaf, yr Ysgrifennydd Parhaol a'r ystod uchaf ac isaf o gyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol.

| Gwahaniaeth Cyflog | | Cymhareb |
|---|---|---|
| Cymhareb Isaf i'r Uchaf | Y gwahaniaeth rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr isaf ei gyflog (£20,500) a'r uchaf ei gyflog (£200,000 – £205,000) | 1 i 10 |
| Cymhareb Isaf i'r Ysgrifennydd Parhaol | Y gwahaniaeth rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr isaf ei gyflog (£20,500) a'r Ysgrifennydd Parhaol (£135,000 – £140,000) | 1 i 6.83 |
| Cymhareb Isaf i Gyfarwyddwr Cyffredinol | Y gwahaniaeth rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr isaf ei gyflog (£20,500) a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (uchaf ei gyflog £205,000 – £210,000, isaf ei gyflog £120,000 – £125,000) | Uchaf<br>1 i 10.24<br>Isaf<br>1 i 6.10 |
| Cymhareb Canolrifol i'r Uchaf | Y gwahaniaeth rhwng cyflog canolrifol (£37,410) Llywodraeth Cymru a'r cyflog uchaf (£200,000 – £205,000) | 1 i 5.48 |
| Cymhareb Canolrifol i'r Ysgrifennydd Parhaol | Y gwahaniaeth rhwng cyflog canolrifol (£37,410) Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol (£135,000 – £140,000) | 1 i 3.74 |
| Cymhareb Canolrifol i Gyfarwyddwr Cyffredinol | Y gwahaniaeth rhwng cyflog canolrifol (£37,410) Llywodraeth Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (uchaf ei gyflog £205,000 – £210,000, isaf ei gyflog £120,000 – £125,000) | Uchaf<br>1 i 5.61<br>Isaf<br>1 i 3.34 |

# Atodiad 4

## Cyflogau Uwch-reolwyr Llywodraeth Cymru fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2021 – Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ennill £100,000 neu fwy mewn bandiau o £5,000

| Cyfenw / Llythrennau cyntaf | Ystod Cyflog £000 | Teitl y Swydd | Rhyw | Ystod cyflog gwirioneddol os yn rhan amser £000 |
|---|---|---|---|---|
| Goodall, A | 205-210 | Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | G | Amh |
| Atherton, F | 200-205 | Prif Swyddog Meddygol | G | Amh |
| Baranski, GE | 125-130 | Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru | B | Amh |
| Bisson, PJ | 100-105 | Cyfarwyddwr Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder | G | Amh |
| Bridgman, CM | 100-105 | Prif Swyddog Deintyddol | B | Amh |
| Brindle, SJ | 100-105 | Cyfarwyddwr, Adfer ac Ailgychwyn | G | Amh |
| Brown, N | 105-110 | Prif Weithredwr Cafcass Cymru | G | Amh |
| Burke, TM | 125-130 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | B | Amh |
| Clifford, DP | 125-130 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | G | Amh |
| Daniels, J | 100-105 | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG | B | Amh |
| Davies, HG | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol | G | Amh |
| Davies, MW | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol | B | Amh |
| Davies, S | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr | G | Amh |
| Dean, SD | 165-170 | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru | G | Amh |
| Evans, DG | 100-105 | Cyfarwyddwr Cyllid | G | Amh |
| Evans, S | 100-105 | Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau | B | Amh |
| Glossop, CE | 105-110 | Prif Swyddog Milfeddygol | B | Amh |
| Halligan, P | 115-120 | Prif Gynghorydd Gwyddonol | G | Amh |
| Heaney, AL | 130-135 | Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru | G | Amh |

| Cyfenw / Llythrennau cyntaf | Ystod Cyflog £000 | Teitl y Swydd | Rhyw | Ystod cyflog gwirioneddol os yn rhan amser £000 |
|---|---|---|---|---|
| Howells, JR | 110-115 | Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio | G | Amh |
| Hughes, DM | 105-110 | Prif Gwnsler Deddfwriaethol | G | Amh |
| Jeffreys, A | 100-105 | Cyfarwyddwr y Trysorlys | G | Amh |
| Jones, CJ | 115-120 | Dirprwy Brif Swyddog Meddygol | G | Amh |
| Jones, DS | 110-115 | Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd | G | Amh |
| Jones, PL | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd | G | Amh |
| Kennedy, PD | 100-105 | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | G | Amh |
| Kowal, TM | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol | G | Amh |
| Lyne, C | 100-105 | Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | B | Amh |
| Macnamara, CA | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol | B | Amh |
| Martin, N | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol | G | Amh |
| Maxwell, MB | 100-105 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp | B | Amh |
| Medcraft, DJ | 100-105 | Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | G | Amh |
| Mitchell-Kilpatrick, RT | 100-105 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng Covid | G | Amh |
| Morgan, SE | 135-140 | Ysgrifennydd Parhaol | B | Amh |
| Morris, HJ | 120-125 | Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes | G | Amh |
| Render, T | 100-105 | Cyfarwyddwr, Tir, Natur a Bwyd | G | Amh |
| Richards, DT | 105-110 | Cyfarwyddwr Llywodraethiant | G | Amh |
| Ryland, PW | 100-105 | Prif Weithredwr, WEFO | G | Amh |
| Slade, A | 125-130 | Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | G | Amh |
| Thomas, JD | 100-105 | Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth | G | Amh |
| Warrender, DJ | 105-110 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Arweinydd Rhaglen | G | Amh |

| Cyfenw / Llythrennau cyntaf | Ystod Cyflog £000 | Teitl y Swydd | Rhyw | Ystod cyflog gwirioneddol os yn rhan amser £000 |
|---|---|---|---|---|
| White, JC | 105-110 | Prif Swyddog Nyrsio | B | Amh |
| Hayes, S | 115-120 | Uwch Swyddog Meddygol – Cymorth | B | 75-100 |
| Stephens, DJ | 110-115 | Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru | G | 65-70 |
| Duffy, F | 100-105 | Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd | B | 60-65 |
| Fullerton, CM | 100-105 | Prif Swyddog Digidol | B | 45-50 |
| Rawlings, HF | 110-115 | Cyfarwyddwr, Materion Cyfansoddiadol | G | 15-20 |
| Watkins, SE | 100-105 | LIC/GIG Cymorth Digwyddiad Iechyd Meddwl | B | 20-25 |

## Cyflogau amser llawn dros £100k ond sy'n talu llai na £100k:

| Cyfenw / Llythrennau cyntaf | Ystod Cyflog £000 | Teitl y Swydd | Rhyw | Ystod cyflog gwirioneddol os yn rhan amser |
|---|---|---|---|---|
| Brace, A | 115-120 | Director of Finance | M | 80-85 |
| Currado, GM | 100-105 | Director, Enviroment & Marine | M | 95-100 |
| Godfrey, JC | 115-120 | Director, Legal Services | M | 0-5 |

# Atodiad 5

## Pob swydd oddi ar y gyflogres fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2021, oedd yn talu mwy na £245 y diwrnod

| | Cyfanswm | E&T | CSA | EERA | EPS | MHWWL | HSS | HLG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2021 | 118 | 7 | 22 | 15 | 14 | 2 | 39 | 19 |
| **O'r rhain...** | | | | | | | | |
| Nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad. | 38 | 0 | 7 | 6 | 4 | 1 | 17 | 3 |
| Nifer sydd wedi bodoli rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad. | 36 | 2 | 8 | 5 | 5 | 1 | 10 | 5 |
| Nifer sydd wedi bodoli rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad. | 17 | 2 | 3 | 0 | 2 | 0 | 5 | 5 |
| Nifer sydd wedi bodoli rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad. | 10 | 2 | 2 | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 |
| Nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy adeg yr adroddiad. | 17 | 1 | 2 | 4 | 1 | 0 | 4 | 5 |

Mae'r holl swyddi presennol oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad ar sail risg, ar un adeg, i weld a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, mae'r sicrwydd hwnnw wedi'i geisio.

# Atodiad 6

## Unrhyw swyddi oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau o'r bwrdd a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021

| | Cyfanswm | E&T | CSA | EERA | EPS | MHWWL | HSS | HLG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y swyddi oddi ar y gyflogres ar gyfer uwch-swyddogion a/neu aelodau bwrdd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 3 | 1 |

# Atodiad 7

| Teitl y papur: | Pwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) Adroddiad Blynyddol 2020-2021 |
|---|---|
| Diben y Papur: | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a ystyriwyd gan Bwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 |
| Y camau i'w cymryd gan y Bwrdd: | Dim angen penderfyniad. Gwahoddir y Bwrdd i drafod yr adroddiad |
| Swyddog sy'n cyflwyno'r papur: | Jeff Farrar, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil |
| Papur wedi'i baratoi gan: | Evelyn Edwards |
| Cyhoeddi: | Dylai'r papur hwn gael ei gyhoeddi |
| Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth: | |

# 1. Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Cyfarfu'r Pwyllgor 7 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd, a hynny ar y dyddiadau canlynol:

- 24 Ebrill 2020
- 12 Mehefin 2020
- 17 Gorffennaf 2020
- 11 Medi 2020
- 23 Hydref 2020
- 05 Chwefror 2021
- 26 Mawrth 2021

1.2 Roedd presenoldeb aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Enw | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| Jeff Farrar (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Anweithredol | 7 |
| Shan Morgan yr Ysgrifennydd Parhaol | 7 |
| Meena Upadhyaya Cyfarwyddwr Anweithredol | 6 of 7* |
| Ellen Donovan Cyfarwyddwr Anweithredol | 7 |
| Gareth Lynn Cyfarwyddwr Anweithredol | 7 |
| Andrew Goodall Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG | 6 of 7* |
| Des Clifford Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | 4 of 7* |
| Tracey Burke Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 7 |
| Andrew Slade Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 7 |
| Peter Kennedy Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 7 |

* Roedd cyfarfod cyntaf Meena fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar 12 Mehefin 2020

1.3 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a Rhestr o'r Aelodau ar gael yn Atodiad A.

1.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Blaenoriaethau staffio a hyblygrwydd SCS ar gyfer COVID-19 gan gynnwys Ailgychwyn ac Adfer;
- Goblygiadau parhaus Brexit i staffio'r SCS;
- Adroddiad ac argymhellion y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil;
- Cynllunio olyniaeth o ran Cyfarwyddwyr;
- Rheoli perfformiad SCS, gan gynnwys cymedroli a system rheoli perfformiad newydd ar gyfer 2021-22;
- Ystyried anghysondebau cyflog o fewn bandiau cyflog SCS;
- Enwebeion Llywodraeth Cymru ar gyfer anrhydeddau'r wladwriaeth;
- Y broses recriwtio ar gyfer holl swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil sydd naill ai wedi dod yn wag neu sy'n swyddi newydd, gan gynnwys a ddylid hysbysebu'r swyddi'n fewnol ynteu'n allanol, gosod yr ystod cyflog ac a ddylid defnyddio trefniadau chwilio gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr holl geisiadau am Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro i'r Uwch Wasanaeth Sifil, ac os cânt eu cymeradwyo, eu hysbysebu'n agored;
- Ar ôl ystyried strwythur y sefydliad yn ofalus, cymeradwywyd 25 penodiad yn ystod y flwyddyn;
- Papur Swyddfa'r Cabinet ar dâl sy'n seiliedig ar allu ar gyfer SCS;
- Yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, trefnwyd dau weithdy i drafod cynllunio olyniaeth o ran Cyfarwyddwyr a ffurf y sefydliad yn y dyfodol.

## 2. Crynodeb y Cadeirydd

2.1 Mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar oruchwylio strategaeth gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil, gan roi sylw arbennig i'r defnydd o'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r system.

2.2 Y maes arall rydym yn canolbwyntio'n bennaf arno yw recriwtio i'r Uwch Wasanaeth Sifil a nifer yr aelodau ohono, gan gynnwys cynnig her o ran lleoliad swyddi ac o ran strwythurau.

2.3 Nodau'r Cadeirydd – ymhlith fy nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod mae:

- cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol ar Adfer yn sgil COVID-19, materion sy'n ymwneud â Brexit, Y Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb, Prawfesur y Dyfodol, mentrau Gweithio'n Glyfar ac Adnoddau sy'n Flaenoriaeth;
- Ymrwymiad parhaus i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad;
- Ymrwymiad i wella amrywiaeth yn yr SCS a datblygu'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2025;
- Rôl Cyfarwyddwyr Anweithredol mewn Talent;
- Parhau i sicrhau bod olynwyr ar gyfer holl swyddi allweddol SCS a monitro gwybodaeth reoli a thueddiadau ar gyfer staffio a swyddi SCS.

2.4 Rwyf yn ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau i'r holl faterion a drafodwyd ac i'n penderfyniadau; eu hystyriaethau gofalus a'u sylwadau cytbwys, sy'n ein helpu i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r materion ger ein bron mewn ffordd sensitif, deg, cyson a phrydlon er mwyn bodloni anghenion y sefydliad. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i Peter Kennedy ac i Evelyn Edwards a'i thîm am eu gwaith yn cefnogi'r Pwyllgor ac yn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

## 3. Goblygiadau o ran adnoddau

3.1 Diweddariad yw hwn, a'r adnoddau ariannol a staffio presennol sy'n berthnasol yn achos pob un o'r meysydd a'r materion a godir.

## 4. Risgiau

4.1 Mae pob risg yn cael ei chofnodi'n briodol a'i monitro mewn cofrestr risgiau ar wahân.

## 5. Cyfathrebu

5.1 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd yn ogystal â'r rhyngrwyd.

## 6. Materion cydymffurfio cyffredinol

6.1 Dim.

# Pwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil

## Cylch Gorchwyl

1. Mae Pwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Is-bwyllgor o'r Bwrdd. Cafodd ei sefydlu er mwyn:
    - Pennu a chyhoeddi strategaeth gyflogau Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.
    - Rhoi cyngor ffurfiol i'r Prif Weinidog er mwyn caniatáu iddo gyflawni ei gyfrifoldebau fel Gweinidog y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.
    - Goruchwylio prosesau asesu a chymedroli aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil.
    - Sicrhau bod y cynnydd cyfartalog i fil cyflogau yr Uwch Wasanaeth Sifil o fewn y gyllideb a bennwyd yn ganolog.
    - Monitro canlyniadau cyflog i sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw wahaniaethau.
    - Sicrhau bod yr aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil sydd yn y gyfran isaf ac y mae arnynt angen help ychwanegol i wella eu perfformiad yn cael eu cefnogi a'u datblygu'n briodol.
    - Sicrhau bod rheolwyr llinell yn derbyn adborth ar benderfyniadau cyflog terfynol er mwyn medru egluro i unigolion sut y daethpwyd i'r penderfyniad hwnnw.
    - Archwilio ansawdd tystiolaeth ac argymhellion rheolwyr drwy adolygu adroddiadau penodol yn achlysurol.
    - Adrodd ar y cylch cyflog diweddaraf ac ar unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol.
    - Pennu a ddylai cyflogau unigol gael eu codi, ac o faint, yn dilyn cynnydd sgôr JESP (yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet).
    - Cytuno fesul achos ar osod cyflogau cychwynnol uwchben isafswm ystod cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil.
    - Cytuno ar brosesau recriwtio ar gyfer pob un o swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil.

## Aelodaeth

2. Dyma aelodau presennol y Pwyllgor:

- Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol gan gynnwys y Cadeirydd
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa'r Prif Weinidog
- Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Ysgrifenyddiaeth Adnoddau Dynol.